



Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

Bwletin GwE

Cyfleoedd gyda GwE

Arweinydd Craidd – CYNRADD [Llawn Amser]

HYSBYSEB SWYDD – ARWEINYDD CRAIDD [CYNRADD]

SWYDD DDISGRIFIAD – ARWEINYDD CRAIDD [CYNRADD]

Am sgwrs anffurfiol, cysylltwch â Marc Berw Hughes, Arweinydd Rhanbarthol Ysgolion Cynradd ar 07969 324329 / 0300 500 8087 neu drwy e-bost marcberwhughes@gwegogledd.cymru

Am ragor o wybodaeth a ffurflen gais, ewch i www.gwynedd.llyw.cymru neu cysylltwch ar 01286 679076.

DYDDIAD CAU: 10:00 O'R GLOCH, DYDD IAU, 14 CHWFROR 2019

Cyfleoedd Arbennig o fewn Gwyddoniaeth Cynradd

GwE yn Cydweithio â'r Primary Science Teaching Trust i wella Gwyddoniaeth yn y Cynradd

Mae'n bleser gennym gyhoeddi y byddwn, mewn partneriaeth efo'r Primary Science Teaching Trust (PSTT), yn cynnig cefnogaeth benodol ac arweiniad i athrawon sydd â diddordeb mewn cyflwyno gwyddoniaeth o safon uchel yn y cynradd. [Cliciwch yma am ragor o wybodaeth.](#)

Os oes gennych ddiddordeb mewn gweithio gyda GwE a'r PSTT i wella gwyddoniaeth, anfonwch e-bost (200-400 gair) at

MorganCordiner@gwegogledd.cymru erbyn **4 Mawrth 2019**. Sicrhewch fod eich e-bost yn egluro pam yr ydych am fod yn rhan o'r prosiect hwn a'ch gwledigaeth ar gyfer gwella gwyddoniaeth. Mae'n bwysig hefyd bod eich cais yn cyfleu ymrwymiad yr ysgol a'r athro/athrawes enwedig i hir oes y prosiect. Cysylltwch â Kathy.schofield@pstt.org.uk neu richardwatkins@gwegogledd.cymru os oes gennych gwestiynau.

Cynhadledd Addysg Gwyddoniaeth Cynradd yng Nghaeredin, Mehefin 2019

Mae'n bleser gennym gyhoeddi ein bod, mewn partneriaeth efo'r Primary Science Teaching Trust (PSTT), yn cynnig cyllid llawn i 10 fynychu'r Gynhadledd Addysg Gwyddoniaeth Cynradd a gynhelir yng Nghanolfan Gynhadledd Ryngwladol Caeredin ar 6-8 Mehefin 2019. [Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion ac [yma](#) am gipolwg o'r rhaglen.

Os oes gennych ddiddordeb mewn teithio gyda ni i Gaeredin i fynychu'r gynhadledd am dridiau, anfonwch e-bost at MorganCordiner@gwegogledd.cymru erbyn **15 Chwefror 2019**. Bydd llefydd ar gael ar sail y cyntaf i'r felin, dibynnu ar ddigon o ddiddordeb.

Cynnig GwE ar G6

Fel y gwyddoch, mae Cynnig GwE, sy'n cynnwys holl fanylion yr hyfforddiant datblygiad proffesiynol y mae GwE yn ei gynnig ar gyfer y flwyddyn nesaf, bellach yn fyw ar G6 [\[https://g6.gwegogledd.cymru\]](https://g6.gwegogledd.cymru).

Er mwyn cofrestru i fynychu'r hyfforddiant sydd wedi'i restru, bydd angen i holl staff yr ysgol greu cyfrif personol yn G6.

Mae modd gwneud hynny drwy ddilyn y [ddolen hon](#) a chlicio ar y botwm 'Cofrestrwch Nawr'. Gweler y cyfarwyddiadau [yma](#).

HYFFORDDIANT	DYDDIAD	LLEOLIAD
NRICH: A yw datblygu Ymresymu Rhifyddol yn flaenoriaeth ysgol?	13/02/2019	Village Hotel [St Davids], Ewloe
Cyfarfodydd Rhwydwaith Arweinwyr Rhifedd (Wrecsam / Sir y Fflint)	19/02/2019	Gwesty Beaufort Park, Yr Wyddgrug
Cyfarfodydd Rhwydwaith Arweinwyr Llythrennedd (Wrecsam / Sir y Fflint)	19/02/2019	Gwesty Beaufort Park, Yr Wyddgrug
Cyfarfodydd Rhwydwaith Arweinwyr Rhifedd (Conwy / Sir Ddinbych)	20/02/2019	Canolfan Fusnes Conwy, Cyffordd Llandudno
Cyfarfodydd Rhwydwaith Arweinwyr Llythrennedd (Conwy / Sir Ddinbych)	20/02/2019	Canolfan Fusnes Conwy, Cyffordd Llandudno
Cyfarfodydd Rhwydwaith Arweinwyr Rhifedd (Gwynedd / Ynys Môn)	21/02/2019	Tŷ Menai, Parc Menai, Bangor
Cyfarfodydd Rhwydwaith Arweinwyr Llythrennedd (Gwynedd / Ynys Môn)	21/02/2019	Tŷ Menai, Parc Menai, Bangor
Cynhadledd Flynyddol Genedlaethol i CALU	22/02/2019	Venue Cymru, Llandudno
MAWRTH		
NRICH: Ymresymu Myfyriol: o fod yn ddirofiad i fod yn arbenigwr [Venue Cymru, Llandudno]	05/03/2019	Venue Cymru, Llandudno
2C Ymsefydlu i ANG [Llanelwy]	12/03/2019	OpTIC, Llanelwy
2C Ymsefydlu i ANG [Plas Menai]	13/03/2019	Plas Menai, Caernarfon
Gwyddoniaeth – Herio Disgyblion Mwy Abl [Uwchradd – Saesneg – Ysgol Friars, Bangor]	13/03/2019	Ysgol Friars, Bangor

2C Ymsefydlu i ANG [Wrecsam]	14/03/2019	Canolfan Catrin Finch, Wrecsam
Datblygu Cynlluniau Gwaith CA3 i ateb gofynion statudol y presennol [Cymraeg – Llanrwst]	20/03/2019	Glasdir, Llanrwst
Gwyddoniaeth Uwchradd – Datblygu Sgiliau Llafaredd yn ymwneud â Gwyddoniaeth	25/03/2019	Venue Cymru, Llandudno
Gwyddoniaeth – Ennyn Diddordeb Dysgwyr [Uwchradd – Dwyieithog – Llandudno]	26/03/2019	Venue Cymru, Llandudno
Cracio'r Cod – Addysgu Rhaglennu gyda Chodio yn seiliedig ar Flociau [Saesneg – Yr Wyddgrug]	27/03/2019	Linden House, Yr Wyddgrug
Cracio'r Cod – Addysgu Rhaglennu gyda Chodio yn seiliedig ar Flociau [Dwyieithog – Caernarfon]	28/03/2019	Penrallt, Caernarfon
Shirley Clarke: Cynhadledd i Benaethiaid	29/03/2019	Venue Cymru, Llandudno

Rhaglenni Datblygu GwE

Gweithdai HackJam 'Cracio'r Cod' ★NEWYDD★

Mae GwE wedi trefnu cyfres o weithdai HackJam 'Cracio'r Cod' ar 20 a 21 Chwefror.

Ceir taflenni gwybodaeth ar fformat pdf [yma](#) y byddwch efallai am rannu â chyd-weithwyr, disgyblion a rhieni er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd i'r gweithdai hyn.

Ceir rhagor o fanylion am y gweithdai, y dyddiadau a'r lleoliadau [yma](#).

Gweithdai Datblygu Sgiliau Allweddol [Llythrennedd, Rhifedd a ThGCh / FfCD] drwy Wybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

AR GYFER ATHRAWON A CHYMORTHYDDION

[Cliciwch yma](#) am restr o'r dyddiadau a'r lleoliadau.

COFRESTRWCH DRWY G6.

Cyfarfodydd Rhwydwaith Llythrennedd a Rhifedd Cynradd

Bydd Gareth Coombes yn arwain y sesiwn drwy gyfrwng y Saesneg, ond, bydd yr holl adnoddau ar gael yn y Gymraeg.

[Cliciwch yma](#) am restr o'r dyddiadau a'r lleoliadau.

COFRESTRWCH DRWY G6.

Gweithdy Cyfnod Sylfaen

W/C 11/02/2019 – LLEOLIADAU AMRYWIOL

Datblygu sgiliau allweddol [Llythrennedd, Rhifedd a TGCh/FfCD] drwy'r maes Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd. Gweithdy dau hanner diwrnod ar gyfer athrawon a hanner diwrnod ar gyfer cymorthyddion.

[COFRESTRWCH DRWY G6.](#)

Cynhadledd Arweinyddiaeth Chweched Dosbarth

DYDD MAWRTH, 15 CHWEFOR 2019 – GLASDIR, LLANRWST

Bydd GwE yn cynnal yr ail Gynhadledd Flynyddol i Arweinwyr Chweched Dosbarth a Phenathiaid Cynorthwyol Chweched Dosbarth. Thema'r gynhadledd fydd Llesiant.

Am ragor o fanylion, dilynwch y [ddolen hon](#).

ARCHEBWCH EICH LLE DRWY [GLICIO YMA](#). DYDDIAD CAU COFRESTRU: 07/02/2019

Rhaglenni Datblygu Arweinyddiaeth GwE ★NEWYDD★

Mae'n gadarnhaol iawn bod 60 yn dilyn y Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth i Ddarpar Benaethiaid [RhDADB] y llynedd ac eleni – tua'r un faint drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. 20% o griw'r llynedd wedi mynd ymlaen i ddilyn CPCP eleni.

Dyma rai dyfyniadau gan griw'r llynedd:

Mae pob diwrnod wedi bod o werth imi er mwyn cadarnhau fy mod eisiau bod yn Bennaeth.

Roedd yn gwrs hynod dda – trefnus a defnyddiol, ac sydd wedi rhoi'r cyfle imi fyfyrto ar fy arferion presennol.

Dau gyflwynydd profiadol sy'n gwybod sut beth ydi rhedeg ysgol, ac wedi llwyddo i wneud eu swyddi yn dda. Roedd arweiniad a brwdfrydedd y cyflwynydd yn arbennig. Teimlo hefyd bod gan y cyflwynydd wir ddiddordeb yn fy natblygiad ac yn rhoi adborth da imi drwy gydol yr hyfforddiant.

Darpariaeth gynhwysfawr o safon uchel!

Wedi mwynhau gwrandao ar gyfraniadau gan Benaethiaid eraill a ddaeth i gyfoethogi'r rhaglen.

Shirley Clarke: Cynhadledd i Benaethiaid

DYDD GWENER, 29 MAWRTH 2019 – 8:50YB-4:00YP – VENUE CYMRU, LLANDUDNO

Cyfle i holl Benaethiaid y rhanbarth gael gwybodaeth uniongyrchol gan Shirley Clarke am ymchwil a datblygiadau ym maes Asesu Ffurfiannol.

COFRESTRWCH DRWY G6.

Cynhadledd Genedlaethol CALU

DYDD GWENER, 22 CHWFROR 2019 – VENUE CYMRU, LLANDUDNO
Estynnir gwahoddiad i bob CALU yng ngogledd Cymru a'u Penaethiaid.
COFRESTRWCH DRWY G6.

CONSORTIA GWELLA YSGOLION RHANBARTHOL
REGIONAL SCHOOL IMPROVEMENT CONSORTIA



Cyrsiau Sabothol Cymraeg

Cwrs Cymraeg mewn Blwyddyn

Cwrs i **athrawon cynradd** ysgolion cyfrwng Saesneg sydd am wella eu rhuglder a'u cywirdeb gramadegol yn y Gymraeg, ac sydd am gynyddu eu hyder yn y Gymraeg yn gyffredinol ac wrth ddysgu ac addysgu.
Cliciwch yma am ragor o fanylion.

Cwrs Sabothol Cymraeg [Lefel Uwch]

30 EBRILL 2019 – 17 GORFFENNAF 2019 – CANOLFAN BEDWYR, PRIFYSGOL BANGOR
Cyfle i Athrawon [cynradd ac uwchradd, cynorthwywyr dosbarth [lefel uwch] a darparwyr hyfforddiant sy'n gallu siarad Cymraeg yn rhugl [dysgwyr neu Gymry Cymraeg] i wella eu sgiliau Cymraeg. Rhagor o fanylion **yma**.
DYDDIAD CAU ANFON CEISIADAU: DYDD GWENER, 15 CHWFROR 2019
I gofrestru ar gyfer sesiwn flasu awr o hyd, **cliciwch yma**.

Cwrs Sabothol Cymraeg [Lefel Mynediad]

29 EBRILL 2019 – 7 MEHEFIN 2019 – COLEG CAMBRIA LLANEURGAIN, LLANEURGAIN – CYNORTHWYWYR DOSBARTH AIL IAITH.
Cwrs i Gynorthwywyr Dosbarth Cymraeg Ail Iaith sydd efo ychydig iawn o wybodaeth o'r iaith Gymraeg ac sydd am ddefnyddio mwy o Gymraeg yn yr ysgol.
Os oes gennych ddiddordeb yn y cwrs, **cliciwch yma**.



Cynadleddau a Chyfleoedd gan Eraill

Gweler isod fanylion y cyfleoedd a allai fod yn ddefnyddiol yn eich ysgol. Sylwch nad yw GwE o reidrwydd yn cymeradwyo nac yn sicrhau ansawdd y cyfleoedd isod. Cysylltwch â'r sefydliadau'n uniongyrchol os oes gennych ymholiadau:

Iechyd Emosiynol a Llesiant ar gyfer Dysgu

★NEWYDD★

DYDD IAU, 16 MAI 2019 – BLACK LANE CP SCHOOL, WRECSAM

AC / NEU

Amser Cinio ac Amser Egwyl Cadarnhaol a Ffreutur

Digynnwrf ★NEWYDD★

DYDD GWENER, 17 MAI 2019 – BLACK LANE CP SCHOOL WRECSAM

Cliciwch yma am ragor o fanylion am y ddau ddigwyddiad a gynhelir gan Black Lane School [hysbyseb Saesneg yn unig]



Gwybodaeth Amrywiol ac Arolygon

Llyfryn Dulliau Addysgu Dwyieithog ★NEWYDD★

Mae'r llyfryn Dulliau Addysgu Dwyieithog gafodd ei lansio yn ein Cynhadledd Dwyieithrwydd fis Tachwedd diwethaf bellach ar gael yn electroneg. Am gopi PDF **cliciwch yma**, neu am fersiwn e-lyfr dilynwch y linc **yma**.

Cenhadaeth ein cenedl: Cwricwlwm sy'n gweddnwid – Cynnig am fframwaith deddfwriaethol newydd

Cliciwch yma i ddarllen datganiad gan Lywodraeth Cymru yn cadarnhau ei bwriad y bydd trochi plant yn y Gymraeg yn parhau o dan drefniadau'r cwricwlwm newydd.

Newidiadau Arfaethedig i Ysgolion ar Ofynion Gosod Targedau

Dyma gyfle i chi ddweud eich dweud am y newidiadau arfaethedig i'r gofynion statudol ar osod targedau i ysgolion yng Nghymru.

Cliciwch yma i weld sut y gallwch ymateb.

YMGYNGHORIAD YN CAU: 8 MAWRTH 2019

Datganiad Ysgrifenedig: Lansio Ymgynghoriad Cyhoeddus ar y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol

Drafft

Mae'r ymgynghoriad ar y Cod ADY drafft a'r rheoliadau arfaethedig yn fyw.

Am ragor o fanylion, **cliciwch yma**. Lleiswch eich barn **yma**.

YMGYNGHORIAD YN CAU: 22 MAWRTH 2019

Am ragor o wybodaeth, ewch i'n [gwefan](#)

Rydym wedi diweddarau ein polisi preifatrwydd i adlewyrchu newidiadau i'r ddeddf gwarchod data. Gallwch weld y polisi yma

Rydych wedi tanysgrifio i dderbyn bwletin GwE. Fodd bynnag, os nad ydych yn dymuno derbyn y bwletin rhagor gallwch ddatdanygrifio drwy gysylltu â bwletin@gwegogledd.cymru yn nodi'r cyfeiriad e-bost sydd wedi'i gofrestru.

